



Annwyl Riant/Gofalwr,

Dyma nodyn i egluro rhai o drefniadau cludiant ysgolion ym mis Medi. Yn ogystal, rydym yn gofyn am eich help i annog plant i feddwl am bobl eraill ac ymddwyn yn gyfrifol wrth deithio o'r cartref i'r ysgol. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd ar y ddolen **'Teithio ar fws ysgol yn ystod Covid-19'** o dudalen **'Teithio i'r ysgol'** o safle **'Ysgolion a dysgu'**.

- Os oes gan ddysgwyr pas bws/trên gan Gyngor Gwynedd, yna yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, nid oes angen gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant pwrpasol o'r cartref i'r ysgol.

Credwn fod hyn yn briodol oherwydd:

- bod y risg cyffredinol i ddysgwyr o COVID-19 yn isel iawn
- nid ydyn nhw'n cymysgu â'r cyhoedd ar y siwrneiau hynny
- bod cludiant ysgol pwrpasol o'r cartref i'r ysgol yn cario'r un grŵp o ddysgwyr yn rheolaidd
- bydd natur ragweladwy'r teithiau, sydd ddim mor wir ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn galluogi rhoi cynlluniau ar waith i sefydlu mesurau diogelu
- prinder tystiolaeth ynglŷn ag unrhyw fudd sylweddol o ddefnyddio gorchuddion wyneb o'i gymharu â'r risgiau posibl o'u defnyddio a'u gwaredu yn anghywir.

Fodd bynnag, bydd angen i blant dros 11 oed sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus arferol (bws/trên) wisgo gorchudd wyneb yn unol â'r Rheoliadau.

- Bydd dysgwyr yn eistedd ar fws ysgol mewn grwpiau blwyddyn, o'r tu blaen i'r cefn, o'r ieuengaf i'r hynaf. Bydd arwyddion ar y bws yn nodi ble mae bob blwyddyn i fod yn eistedd. Bydd sicrhau bod yr un dysgwyr yn eistedd gyda'i gilydd bob amser yn helpu i leihau nifer y cysylltiadau sydd gan bob un.
- Bydd dysgwyr yn eistedd mewn tacsï fel maent yn ei wneud yn arferol. Os oes capasiti yn y cerbyd awgrymir i adael y sedd ffrynt yn wag.
- Ni ddylai unrhyw un deithio ar gludiant i'r ysgol os oes ganddyn nhw neu aelod o'u teulu unrhyw un o bedwar symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli synnwyr blasu neu golli synnwyr arogl).
- Ni ddylai unrhyw un deithio ar gludiant ysgol os ydyn nhw mewn cartref sydd angen hunan-ynysu oherwydd eu bod yn rhan o'r cynllun Profi, Orlhain, Diogelu neu mewn cwarantîn os ydyn nhw wedi dychwelyd o wlad a nodwyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.
- Os yw dysgwyr yn datblygu symptomau yn yr ysgol, dylai gael ei anfon gartref. Fodd bynnag, ni fydd yn cael teithio adref ar gludiant ysgol pwrpasol. Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhiant/gofalwr a dylai'r rhiant/gofalwr wneud trefniadau ar gyfer cludo'r dysgwyr gartref.
- Dylai dysgwyr olchi eu dwylo cyn teithio ar gludiant o'r cartref i'r ysgol ac ar ôl cyrraedd yr ysgol neu'r cartref.
- Mae'r neges 'Ei ddal, ei daflu, ei ddifa' yn bwysig iawn. Bydd ysgolion yn atgyfnerthu'r neges hon gyda dysgwyr. Dylid annog dysgwyr i gario hancesi papur gyda nhw bob amser.
- Rydym wedi gweithio'n agos â chwmnïau cludiant ysgol a bydd y cerbydau'n cael eu glanhau'n drylwyr ar ddiwedd bob dydd.
- Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Seddi Gweigion wedi'i atal.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â theithio i'r ysgol ym mis Medi, mae croeso i chi anfon ymholiad i'r cyfeiriad e-bost [cludiant@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cludiant@gwynedd.llyw.cymru).